# Adroddiad ar

# Selca Day Nursery

**Teras y Rhosyn**
**Llanharan**
**Pont-y-clun**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF72 9RH**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Selca Day Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Selca Day Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Lauren Paskell/Emma Paskell |
| Person â gofal | Amelia Paskell |
| Nifer y lleoedd | 38 |
| Ystod oedran y plant | 6 wythnos i 5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 12 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 6:45am – 6:00pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 28 Gorffennaf 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad cyntaf gan Estyn |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 02/07/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Adolygu arferion allweddol i sicrhau bod anghenion pob un o’r plant yn cael eu hystyried yn llawn

A2 Datblygu’r defnydd o holi effeithiol ymhellach i herio dysgu’r plant a datblygu eu geirfa

A3 Rhaid i asesiadau risg adlewyrchu’r amgylchedd ac ystyried yr holl risgiau posibl

A4 Sicrhau bod yr amgylchedd yn ystyried ac yn hyrwyddo profiadau ac anghenion datblygiadol pob un o’r plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r plant yn hapus, wedi ymgynefino ac yn gallu gwneud penderfyniadau am sut maent yn treulio’u hamser. Er enghraifft, maent yn dewis o blith y gweithgareddau hwyliog a’r teganau a gynigir, gan ddilyn eu diddordebau eu hunain trwy gael mynediad i wahanol ardaloedd y lleoliad mewn grwpiau bach. Mae babanod a phlant bach yn dilyn eu harferion unigol o ran cysgu a bwydo o’r botel. Mae bron pob un o’r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus. Gwrandewir arnynt, ar y cyfan, sy’n gwneud iddynt deimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo’u hunan-barch. Er enghraifft, mae plant yn penderfynu a hoffen nhw chwarae’r tu allan ar y beiciau neu ymweld â’r rhandir i ddyfrio’r blodau.

Mae bron pob un o’r plant yn cyrraedd yn hapus ac yn awyddus i ddechrau eu diwrnod. Maent yn croesawu ei gilydd yn wresog ac yn cyfarch unrhyw bobl sy’n ymweld â’r lleoliad yn frwdfrydig. Mae bron pob un o’r plant yn gyfforddus yn eu hamgylchoedd ac yn datblygu perthnasoedd cynnes â’u cyfoedion a’u hymarferwyr yn y lleoliad. Er enghraifft, mae plentyn hŷn yn siarad yn frwd ag ymarferwr o’r ystafell fabanod, gan ddangos ei degan a sgwrsio am ei chwaer fach a oedd hefyd yn mynychu’r lleoliad ar y diwrnod hwnnw. Mae bron pob un o’r plant yn gyfarwydd â’r arferion dyddiol, sy’n eu helpu i deimlo wedi setlo. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yn hyderus ar adegau prydau bwyd ac wrth ganu rhigymau, cyfrif ac yn ystod gweithgareddau amser stori.

Mae bron pob un o’r plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu. Maent yn frwdfrydig ac yn cael eu cynnwys yn llawn yn y gweithgareddau a gynigir, gan ddatblygu ystod o fedrau wrth iddynt archwilio’r gweithgaredd o’u dewis, er enghraifft wrth ddefnyddio amrywiaeth o geir o wahanol faint a phaent i greu marciau teiars ar y papur. Mae plant yn defnyddio’u dychymyg ac yn gwneud synnwyr o’u byd wrth iddynt gymryd arnynt eu bod yn gwneud paneidiau o de ac yn gweini hufen iâ i’w ffrindiau o’u siop gan ddefnyddio adnoddau go iawn yn ystod chwarae rôl.

Mae bron pob un o’r plant yn mwynhau cwmni ei gilydd a threulio amser gydag ymarferwyr. Maent yn dechrau deall anghenion pobl eraill ac yn ystyried teimladau eu ffrindiau, er enghraifft wrth helpu eu ffrindiau i eistedd ar y siglwr er mwyn iddynt allu chwarae gyda’i gilydd. Mae bron pob un o’r plant yn ymddwyn a rhyngweithio’n dda am eu hoedrannau a’u camau datblygu. Maent yn chwarae’n hapus ar eu pen eu hunain ac ochr yn ochr â’u ffrindiau wrth iddynt ddysgu rhannu a gweithio gyda’i gilydd. Er enghraifft, caiff babanod eu cynorthwyo i gymryd eu tro wrth chwarae â phentyrwyr cylchoedd. Mae plant yn derbyn canmoliaeth am eu hymdrechion a’u cyflawniadau, sy’n gwneud iddynt deimlo’n hapus a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Caiff bron pob un o’r plant gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Gall y rhan fwyaf o blant ddilyn eu diddordebau eu hunain am gyfnodau amser estynedig sy’n eu galluogi i atgyfnerthu medrau a gwneud penderfyniadau. Mae bron pob un o’r plant yn cymryd rhan yn

ystod amseroedd prydau bwyd, yn helpu gweini eu hunain ac yn arllwys eu diodydd eu hunain. Maent yn gwisgo'u cotiau cyn mynd y tu allan. Caiff plant hŷn eu hannog i olchi a sychu eu dwylo, tra bod plant iau yn gwneud hynny ag arweiniad.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn frwdfrydig yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn cymhwyso ystod eang o fedrau yn effeithiol, sy'n gwella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn eu dilyn yn gydwybodol, er enghraifft wrth olchi ceir tegan ag ewyn a dŵr yn yr ardal dŵr dan do. Maent yn siarad yn hyderus gyda'i gilydd a gydag oedolion tra'n cymryd rhan mewn cyfnodau estynedig o chwarae creadigol. Mae bron pob un o'r plant yn ymateb i drafodaethau ac yn rhannu syniadau i gwblhau tasgau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i reidio'u treiciau o gwmpas ffordd esgus ac i mewn i le golchi ceir yn yr awyr agored ar y cyd. Mae llawer o blant yn ymdrechu i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg syml wrth drafod y tywydd, gydag arweiniad gan ymarferwyr. Maent yn mwynhau ymuno â chaneuon ac arferion cyfarwydd yn ystod eu hamser cylch, ac yn ymuno'n hyderus â sgyrsiau syml.

Mae llawer o blant yn trin a thrafod llyfrau fel darllenwyr, gan droi tudalennau yn briodol. Maent yn ymgysylltu'n dda â storïau cyfarwydd ac yn mwynhau trafod y lluniau yn y llyfrau gyda'u ffrindiau. Maent yn eistedd am gyfnodau estynedig wrth wrando ar storïau yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn hapus i drafod digwyddiadau, fel enwi amrywiaeth o ffrwythau ecsotig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau priodol. Maent yn defnyddio medrau rhifedd yn dda wrth gyfrif a siarad am dorri eu ffrwythau neu'u caws yn haneri, trionglau, sgwariau a darnau o wahanol feintiau. Maent yn adnabod rhifau'n hyderus wrth chwarae, ac yn paru rhifau'n gywir i liwiau wrth liwio lluniau o rocedi.

Wrth iddynt chwarae, mae bron pob un o'r plant yn creu marciau pwrpasol gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau fel sialc a phennau ysgrifennu lliw. Maent yn dechrau datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio llythrennau a rhifau i ysgrifennu rhestrau siopa, a llythrennau cyntaf eu henwau ar gefn eu lluniau â rhywfaint o gywirdeb.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus trwy reidio beiciau yn yr ardd, balansio ar flociau pren a defnyddio berfâu wedi'u llenwi â chompost. Maent yn mwynhau gweithio gyda'i gilydd i addasu eu syniadau, er enghraifft wrth ddefnyddio blychau cardfwrdd ac olwynion llywio i gymryd arnynt mai nhw yw Siôn Corn. Maent yn gwrtais a charedig â'i gilydd ac fe gaiff yr agweddau cadarnhaol hyn effaith dda ar ddysgu'r plant.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau digidol yn effeithiol ac yn mwynhau'r ystod o gyfleoedd gwerthfawr sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn defnyddio

tortshis batri wrth edrych ar lyfrau ac yn defnyddio llechi cyfrifiadurol i dynnu lluniau pan fyddant allan yn yr ardal leol. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n dda â'r ardal ac yn cymhwyso'u medrau digidol yn bwrpasol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn gyson sy'n arwain staff ac yn amlinellu disgwyliadau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn monitro babanod a phlant bach yn rheolaidd pan fyddant yn cysgu. Mae ymarferwyr yn deall eu rôl wrth ddelio ag unrhyw faterion diogelu. Maent yn hyderus ynghylch pa gamau i'w cymryd os oes ganddynt bryderon, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau i'w dilyn. Felly, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith i gynorthwyo plant wrth gofnodi ac adolygu ffurflenni damweiniau, digwyddiadau ac unrhyw anafiadau sydd gan blant yn barod. Caiff y rhain eu cofnodi a'u rhannu â rhieni mewn modd amserol trwy ap ar-lein y lleoliad. Mae ymarferwyr yn rhoi meddyginiaeth ac yn cynnal cofnodion yn unol â'r polisi.

Mae ymarferwyr yn cynnig amrywiaeth o brydau bwyd a byrbrydau iach a chytbwys, a dŵr sydd ar gael yn rhad ac am ddim i blant. Maent yn dilyn systemau trylwyr i reoli alergeddau, anoddefiadau, a ffafriaethau. Mae ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid da yn unol â chanllawiau rheoli heintiau, er enghraifft sychu byrddau cyn i blant eistedd i lawr i fwyta a gwisgo ffedogau a menyg wrth drin bwyd. Maent yn annog plant i ddatblygu arferion hylendid da, fel golchi eu dwylo cyn bwyta. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i blant o bob oedran eistedd am gyfnodau amser diangen yn ystod arferion fel amser byrbryd.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn rhyngweithio â phlant yn dda. Maent yn gweithredu fel modelau rôl da, gan siarad gyda'i gilydd a gyda'r plant yn barchus. Mae ymarferwyr yn garedig ac yn amyneddgar ac yn cynnig sicrwydd i blant, pan fydd angen. Maent yn deall y polisi ymddygiad yn dda ac yn defnyddio dull cadarnhaol i arwain plant i ymddwyn yn ôl y disgwyl. Er enghraifft, roedd plentyn eisiau parhau i chwarae yn yr ardal chwarae rôl yn ystod amser byrbryd. Dilynodd yr ymarferwr arweiniad y plentyn i barhau â'i chwarae tan oedd yn barod i ymuno â'r plant eraill ar gyfer eu byrbryd.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn cofnodi gwybodaeth allweddol yn effeithiol i gefnogi profiadau'r plentyn yn y lleoliad. Er enghraifft, caiff ffurflenni 'popeth amdanaf i' eu harddangos yn ystafell chwarae'r babanod i sicrhau bod ymarferwyr yn dilyn arferion unigol y plant. Mae ymarferwyr yn cynnal arsylwadau defnyddiol ac yn nodi'r camau nesaf sy'n eu helpu i gefnogi anghenion unigol pob plentyn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol wrth gynllunio profiadau i gefnogi dysgu'r plant. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Maent yn gofyn am gyngor ac arweiniad buddiol gan weithwyr proffesiynol ac yn adolygu targedau unigol yn rheolaidd i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu. Caiff y Gymraeg ei hyrwyddo'n briodol, er enghraifft wrth gyflwyno cyfrif a lliwiau yn ystod rhai gweithgareddau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut mae plant yn dysgu trwy chwarae ac archwilio. Maent yn darparu ystod dda o brofiadau difyr a gwerthfawr sy'n cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn dda ym mhob maes. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm, ac yn defnyddio hyn yn effeithiol i gefnogi dysgu a datblygiad plant.

Mae ymarferwyr yn cynnwys plant mewn cynllunio'r hyn y maent eisiau dysgu amdano yn ystod sesiynau, ac yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu trwy chwarae. Maent yn caniatáu i blant ddefnyddio'u llais a gwneud dewisiadau annibynnol am eu chwarae. Mae ymarferwyr yn defnyddio ymagwedd hyblyg at ddysgu ac yn ymestyn cyfleoedd sydd o ddiddordeb arbennig i'r plant; er enghraifft, pan fydd y plant yn trafod y tywydd, mae'r ymarferwyr yn mynd â nhw y tu allan i weld y glaw, a'i deimlo. Maent yn annog medrau cymdeithasol plant yn gyson trwy eu helpu i gymryd eu tro a rhannu.

Mae ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio ystod dda o adnoddau sy'n briodol i oedran sy'n helpu datblygu medrau plant yn llwyddiannus. Maent yn dilyn diddordebau'r plant ac yn addasu adnoddau i gyd-fynd â nhw. Er enghraifft, pan fydd plant yn dangos diddordeb mewn golchi ceir, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi'r ceir tegan, ac wedyn yn ymestyn hyn i olchi eu beiciau a'u sgwteri yn yr awyr agored.

Mae ymarferwyr yn gwneud asesiadau ac arsylwadau rheolaidd tra bydd plant yn chwarae, ac yn defnyddio'r rhain yn dda i gofnodi camau nesaf y plant. Er enghraifft, maent yn nodi bod angen cyfleoedd ar ychydig o blant i ddatblygu eu medrau echddygol manwl, ac felly'n defnyddio gemau edafu yn y sesiynau canlynol. O ganlyniad, mae plant yn datblygu eu medrau'n dda dros gyfnod. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda rhieni yn rheolaidd sy'n sicrhau bod plant yn cael mwy o gymorth i ddatblygu eu medrau ym mhob maes.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu am ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, maent yn mynd â nhw i ymweld â chestyll, traethau a pharciau lleol sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o'u bro yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd bywyd go iawn i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill trwy waith ar ddathliadau fel Diwali, ac yn ymuno â sesiynau drymio Affricanaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn fodelau rôl iaith da pan fyddant yn rhyngweithio â'r plant. Maent yn siarad yn glir ac yn gwrando'n ofalus ar ymatebion plant, gan eu canmol am eu syniadau a'u cyfraniadau. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo plant i balu tyllau i blannu planhigion blodeuog yn ardal yr ardd. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn defnyddio holi'n ddigon da bob amser i herio meddwl y plant a datblygu eu geirfa.

**Yr amgylchedd: Digonol**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd dysgu a chwarae ar gyfer plant sy'n ddiogel a saff. Maent yn sicrhau ei fod yn lân ac yn cael ei gynnal yn briodol. Mae arweinwyr yn cofnodi'n effeithiol pan fydd ymwelwyr, plant ac ymarferwyr yn cyrraedd ac yn gadael yr adeilad. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn rhoi mesurau priodol ar waith i gynnal diogelwch yr amgylchedd, gan gynnwys cynnal ymarferion tân rheolaidd. O ganlyniad, mae staff a phlant yn gwybod beth i'w wneud os bydd tân. Mae arweinwyr yn darparu sawl asesiad risg ysgrifenedig ar gyfer ymarferwyr i'w harwain yn eu harferion. Mae'r rhain yn cynnwys yr amgylchedd a gweithgareddau fel chwarae â darnau rhydd. Fodd bynnag, nid yw asesiadau risg yn cynnwys yr holl beryglon posibl neu'n nodi'n llawn y gweithdrefnau diogel i'w dilyn, ac nid yw ymarferwyr bob amser yn eu dilyn yn gadarn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn gallu elwa ar gyfleusterau digonol, a dodrefn o ansawdd da ac o faint priodol, i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r rhan fwyaf o'r gofodau chwarae y tu mewn a'r tu allan wedi cael eu datblygu i wneud y gorau o'r gofod sydd ar gael i ymestyn y profiadau i blant. Er enghraifft, mae'r ystafelloedd chwarae sydd wedi'u neilltuo ar gyfer babanod ifanc iawn a phlant hŷn yn ystyried ac yn hyrwyddo'u profiadau yn unol â'u hanghenion datblygiadol. Fodd bynnag, mae'r brif ystafell chwarae, sy'n cael ei rhannu gan fabanod hŷn a phlant bach, yn cael ei defnyddio gan bob un o'r plant yn ystod amseroedd prydau bwyd, hefyd. Mae sawl bwrdd a chadair wedi'u lleoli yn y gofod hwn, sy'n cyfyngu ar allu plant i symud o gwmpas yn rhwydd. O ganlyniad, mae cyfleoedd i blant iau elwa ar ystod lawn y profiadau chwarae yn gyfyngedig. Mae ystafell gysgu ddynodedig yn galluogi plant i gysgu / gorffwys ac encilio o brysurdeb y lleoliad. Mae ymarferwyr yn creu arddangosfeydd y tu mewn a'r tu allan, sy'n cofnodi profiadau plant ac yn dathlu eu gwaith celf yn dda. Hefyd, maent yn defnyddio arwyddion darluniadol i hyrwyddo cyfleoedd dysgu fel lluniau emosiwn sydd wedi'u gosod o gwmpas drych ar lefel isel.

Mae arweinwyr yn darparu ystod addas o deganau ac adnoddau, sydd o ansawdd da. Caiff eitemau bywyd go iawn ac eitemau wedi'u hailgylchu eu defnyddio'n dda i ymestyn profiadau chwarae plant y tu mewn a'r tu allan. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio potiau a phadelli dur gloyw a blychau grawnfwydydd gwag yn yr ardaloedd chwarae rôl. Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cadw ar lefel isel mewn blychau / basgedi sydd wedi'u labelu i alluogi plant i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau unigol.

Mae'r amgylcheddau awyr agored yn cynnig ystod o gyfleoedd a phrofiadau chwarae addas ar gyfer plant. Er enghraifft, gall plant ymgysylltu â'r byd naturiol a phrofi cyfleoedd ar gyfer chwarae trwy wneud symudiadau corfforol mawr ar yr ardal laswellt agored, wrth ymweld â'r rhandir cyfagos. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn ymestyn y gofod chwarae bach y tu allan trwy roi amrywiaeth o offer yno, fel twneli, trawstiau cerdded, cerrig camu ac ardaloedd chwarae rôl i hyrwyddo medrau corfforol a chwarae dychmygus plant.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth gref, y maent yn ei rhannu'n dda ag ymarferwyr, ac maent yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer y lleoliad. Maent yn gweithio'n galed i greu ethos cynnes a gofalgar sy'n sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn saff. O ganlyniad, mae plant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn ymgynefino'n gyflym.

Mae arweinwyr wedi sefydlu datganiad diben clir sy'n rhoi gwybod i rieni a gofalwyr pa wasanaethau y mae'r lleoliad yn eu cynnig. Maent yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn cynorthwyo ymarferwyr ym mhob agwedd ar eu gwaith. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn canolbwyntio ar adolygu un polisi bob mis, i ddatblygu eu gwybodaeth a'u hyder yn arferion y lleoliad. Mae ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac mae dysgwyr yn dathlu eu cyfraniad trwy system wobrwyo fisol, sy'n sicrhau bod morâl yn uchel. Adlewyrchir hyn mewn ymddygiadau cadarnhaol a welwyd ymhlith y plant.

Mae arweinwyr wedi sefydlu systemau effeithiol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ymarferwyr gael eu cynnwys yn llawn yn y broses cynllunio a gwella. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth a gasglant o ystod eang o ffynonellau i lywio cynllunio gwelliant. Mae arweinwyr yn monitro gwariant yn agos i sicrhau bod penderfyniadau am wariant yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau'r lleoliad ar gyfer gwella. Maent yn gwneud defnydd da o gyllid grant, er enghraifft prynu adnoddau i'r plant eu defnyddio wrth chwarae, yn ogystal ag eitemau sy'n hyrwyddo lles staff. O ganlyniad, mae penderfyniadau'r lleoliad i hyrwyddo profiadau difyr a gwerthfawr ar gyfer y plant yn dda.

Mae arweinwyr yn rheoli ymarferwyr ac adnoddau'n dda, gan ddyrannu a blaenoriaethu gwariant cyllideb a grantiau yn erbyn targedau mewn modd synhwyrol. Maent yn sicrhau bod lefelau priodol o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad addas yn y lleoliad i gefnogi lles, chwarae a dysgu plant yn effeithiol. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau'n glir. Mae arweinwyr yn rheoli'r ymarferwyr yn gydwybodol trwy weithdrefnau goruchwylio ac arfarnu effeithiol a phersonoledig. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau atebolrwydd pob un o'r ymarferwyr o ran safon y ddarpariaeth a deilliannau plant, yn ogystal â chynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu'n broffesiynol.

Mae ymarferwyr yn cyfathrebu â rhieni bob dydd yn ystod amseroedd gollwng a chodi. Maent yn sicrhau yn effeithiol bod rhieni'n derbyn diweddariadau rheolaidd am gynnydd plant trwy gyfryngau cymdeithasol. Mae rhieni'n mwynhau'r cyswllt hwn ac yn credu ei fod yn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd a chyflawniadau eu plentyn. O ganlyniad, mae rhieni'n teimlo'u bod yn cael eu cynnwys ym mywyd bob dydd y lleoliad. Mae rhieni'n siarad yn gadarnhaol am eu perthnasoedd ag arweinwyr ac ymarferwyr, ac yn teimlo'n hyderus fod eu plant yn derbyn gofal da pan fyddant yn y lleoliad.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau pontio effeithiol sy'n cynorthwyo plant yn dda wrth iddynt symud i'r camau nesaf yn eu haddysg. Maent yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol a phwysig gyda staff yn yr ysgol ac yn dathlu'r camau pwysig hyn gyda

theuluoedd yn ystod seremoni raddio. Yn ychwanegol, mae arweinwyr ac ymarferwyr hefyd yn datblygu partneriaethau defnyddiol ag ystod o randdeiliaid i gefnogi eu gwaith, er enghraifft trwy weithio gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/09/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 04 Medi 2024